


# Cymdeithas Gwasanaethau

## Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

### 10. Hyrwyddo a marchnata

#### 10.4 Gweithio gyda'r cyfryngau



Mae aelodau pwyllgor yn dod â gweledigaeth i'w mudiadau ac mae hyn yn rhoi awch iddynt wrth ddelio â'r cyfryngau. Gall staff a budd-deiliaid fod ynghlwm wrth broblemau dyddiol i adnabod unrhyw wendid neu weld cyfleoedd cyfryngol newydd.

Mae codi arian, cefnogaeth gyhoeddus ac enw da i gyd yn cael eu heffeithio gan y cyfryngau. Beth allwch chi wneud i helpu mewn byd ble gall y wasg helpu neu ddryllio eich mudiad?

#### Cadwch lygad ar y llun mawr

- Sicrhewch fod systemau'n bodoli i ddelio â'r cyfryngau. Oes rhywun yn gyfrifol am gysylltu â'r wasg? Beth yw eu briff? Sut y'u hyfforddir ar gyfer ymholiadau cyfryngol?
- Cysylltwch â mudiadau eraill i ddarganfod sut maen nhw'n delio â sylw'r cyfryngau.
- Cadwch mewn cysylltiad â gwneuthurwyr barn yn y gymuned. Darganfyddwch sut mae'r mudiad yn ymddangos iddynt hwy.
- Cadwch olwg ar y sylw a roddir i fudiadau gwirfoddol yn y wasg. Beth sy'n derbyn sylw, a sut? Pa gamgymeriadau a wneir gan fudiadau, a sut y gellir osgoi hyn? Dewch â thoriadau papur newydd i gyfarfodydd, gwyliwch dapiau a thrafodwch.

- Nodwch feysydd problem potensial: mae newyddiadurwyr bob amser yn chwilio am scandal: all gweithgareddau'ch mudiad fod yn rhagfarnllyd?
- Amlygwch fannau gwan a phryderon a thrafodwch hwy gyda staff.
- Crëwch y senarios gwaethaf: Beth yw'r ffordd waethaf y gall y cyfryngau gyflwyno eich mudiad a'i weithgareddau? Trafodwch oblygiadau hyn a thactegau osgoi posib.
- Datblygwch syniad clir am sut yr hoffech weld eich mudiad yn gyhoeddus. Pa weithgareddau hoffech chi weld y cyhoedd yn eu cysylltu â chi?
- Gwnewch hyfforddiant cyfryngol yn rhan o sefydlu pwyllgor.

#### Drafftio polisi cyfryngol

Yn ei rôl fel gwneuthurwr polisi'r mudiad, gall y pwyllgor helpu egluro cysylltiadau cyfryngol drwy weithio gyda staff a'r tîm rheoli i greu polisi cyfryngau. Dylai hyn fod yn ddatganiad o safiad y mudiad tuag at y cyfryngau yn hytrach na chynllun manwl yn cyfeirio at bob cynllun wrth gefn. (Dylid gadael cynllun o'r fath i'ch swyddog cyfryngau neu aelod staff penodedig).

Dylai polisi'r mudiad nodi sut i drafod ymholiadau cyfryngol, gan nodi pwy ddylai siarad â'r cyfryngau. Dylai hefyd ddarparu systemau i benderfynu safle'r mudiad ar unrhyw fater, a dosbarthu'r wybodaeth yma ar draws y mudiad. Mae'n allweddol fod y mudiad i'w weld yn siarad ag un llais a bod staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr - pawb - yn gwybod sut i ymateb wrth siarad â'r cyfryngau, hyd yn oed os mai cyfeirio newyddiadurwyr at y person iawn i ateb cwestiynau.

## **Pryd mae'r mudiad yn siarad â'r cyfryngau?**

Fel arfer, bydd y Prif Weithredwr, aelod penodedig o'r staff neu uwch wirfoddolwr yn siarad â'r cyfryngau. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, gellir galw ar y Cadeirydd neu aelod arall o'r pwyllgor i gynrychioli'r mudiad. Ar adeg gythryblus, megis ymadawiad sydyn y Prif Weithredwr, neu pan fo'r mudiad yn wynebu materion negyddol, gall siaradwr y pwyllgor gyflwyno delwedd sefydlog a pharhaus, gan droi sylw'r mudiad at waith hir-dymor y mudiad, yn hytrach na'r problemau cyfredol.

Peidiwch annog aelodau'r pwyllgor i fynd ar eu liwt eu hun at y cyfryngau. Fodd bynnag, dylai pobl aelod pwyllgar dderbyn hyfforddiant ar sut i ddelio â'r cyfryngau os oes angen.

## **Helpu creu strategaeth gyfryngol flaenweithgar**

Gyda'i weledigaeth unigryw o'r mudiad, gall y pwyllgor ddefnyddio llais pwysig mewn trafodaethau am strategaeth gyfryngol flaenweithgar neu raglenni cysylltiadau cyhoeddus. Cynlluniwyd strategaeth flaenweithgar i alluogi'r cyfryngau i weithio dros y mudiad drwy ei ddefnyddio i godi proffil y mudiad a chadw llygad gyhoeddus ar y gwaith cadarnhaol a wneir. Fel arfer gweithredir y fath strategaeth gan staff, ond gall y pwyllgor helpu drwy gyfrannu ei ymwybyddiaeth eang at y materion.

Dylai'r fath strategaeth gynnwys:

- Datganiadau i'r wasg am gyflawniadau. Rhaid ysgrifennu'r rhain yn dda a sicrhau eu bod yn barod at ddefnydd y wasg. Edrychwch am gyfleoedd i gysylltu gweithgareddau trefniadol â materion yn y wasg.
- Areithiau gan aelodau staff allweddol neu aelodau'r pwyllgor fel bo angen.
- Gwahodd y cyfryngau i adrodd ar ddigwyddiadau arbennig.
- Ymgyrchion cysylltiadau cyhoeddus integredig ar gyfer digwyddiadau arbennig, carreg filltir y mudiad - megis agor adeilad newydd neu gyrraedd rhifau aelodaeth uchel - ac ymgyrchion codi arian.

### **Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**  
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA  
**Elusen Gofrestredig 1063289**

**Ffôn:** 01437 769422 info@pavs.org.uk  
**Ffacs:** 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 10/04/2007



Ffôn: 0800 2888 329  
www.wcva.org.uk